
# Amser - Nodiadau athro


Mae'n bwysig bod copi A3 o'r cloc ar wal yr ystafell addysgu.*




* Mae hwn ar gael ar ffurf adnodd rhyngweddiol 'Cloc'.

# (i) Amserlen bysiau*

## Amserlen bysiau




| | 1af | 2ail | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gorsaf fysiau** | 0730 | 0745 | 0800 | 0815 | 0830 | 0845 |
| **Stryd y Plas** | 0740 | 0755 | 0810 | 0825 | 0840 | 0855 |
| **Stryd Fawr** | 0745 | 0800 | 0815 | 0830 | 0845 | ---- |
| **Y Parc** | 0748 | 0803 | 0818 | 0833 | 0848 | 0903 |
| **Gorsaf Rheilffordd** | 0753 | 0808 | 0823 | 0838 | ---- | 0908 |
| **Canolfan siopa** | 0800 | 0815 | 0830 | 0845 | 0900 | 0915 |
| **Stryd y Bont** | 0806 | 0821 | 0836 | 0851 | 0906 | 0921 |
| **Stryd yr Eglwys** | 0808 | 0823 | 0838 | 0853 | 0908 | 0923 |
| **Ysgol Sant Siôr** | 0815 | 0830 | 0845 | 0900 | ---- | ---- |
| **Y Llyfrgell** | 0820 | 0835 | 0850 | 0905 | 0920 | 0935 |
| **Ysbyty** | 0825 | 0840 | 0855 | 0910 | 0925 | 0940 |
| **Rhodfa'r Llan** | 0833 | 0848 | 0903 | 0918 | 0933 | 0948 |
| **Ysgol Santes Fair** | 0842 | 0857 | 0912 | ---- | ---- | ---- |
| **Ffordd y Castell** | 0848 | 0903 | 0918 | 0933 | 0948 | 1003 |
| **Pwll nofio** | 0900 | ---- | 0930 | 0945 | 1000 | 1015 |

## Cwestiynau'n holi'r amserlen:

1. Faint o amser mae'n gymryd i fynd o'r Parc i Ysgol Sant Siôr?
2. Pob faint mae bws yn gadael yr orsaf fysiau?
3. Faint o'r gloch mae'r bws **cyntaf** yn gadael yr ysbyty?
4. Faint o'r gloch mae'r bws **olaf** yn gadael y Ganolfan Siopa?
5. Ble dydy'r bws hanner awr wedi wyth o'r orsaf fysiau ddim yn stopio?
6. Faint o'r gloch mae'r bws chwarter i wyth yn cyrraedd yr orsaf rheilffordd?
7. Faint o amser mae'n gymryd i fynd o'r orsaf fysiau i'r ysbyty ar y bws hanner awr wedi saith?
8. Mae Jac yn byw yn Stryd y Bont. Faint o amser mae o'n gymryd i fynd i Ysgol Y Santes Fair ar y bws?
9. Sawl bws sy'n stopio wrth Ysgol Y Santes Fair yn y bore?
10. Pa fws sy'n gadael yr orsaf fysiau am chwarter wedi wyth?

* Mae hwn ar gael (i) ar ffurf 'taflen y dysgwr' y gellir ei golygu ar gyfer creu rhagor o gwestiynau (ii) ar ffurf adnodd digidol er mwyn i'r dysgwyr wirio neu farcio eu gwaith eu hunain.

## (ii) Bore prysur:*

| Yr amser mewn rhifau | Yr amser mewn geiriau | Beth sy'n digwydd |
|---|---|---|
| **07:15** | **Am chwarter wedi saith** | **Bydd y cloc larwm yn canu** |
| 07:25 | | |
| 07:30 | | |
| 07:40 | | |
| 07:55 | | |
| 08:05 | | |
| 08:15 | | |
| 08:35 | | |

Yn y tabl uchod

a) ysgrifennwch yr amser mewn geiriau

b) ysgrifennwch beth sy'n digwydd yn y drefn gywir:

Bydd

cloc larwm yn canu ✓
Sam yn mynd i lawr y grisiau i gael brecwast
o'n gadael y tŷ i ddal y bws wrth y Siop Bapurau
o'n codi ac yn cael cawod
Sam yn glanhau ei ddannedd
o'n gwisgo ei ddillad ysgol
o'n cyrraedd yr ysgol gyda'i ffrindiau
Sam yn nôl ei gôt a'i fag ysgol

**am** + treiglad medal
e.e.
am **dd**au o'r gloch
am **d**ri o'r gloch
am **bedwar** o'r gloch
am **b**ump o'r gloch
am **dd**eg o'r gloch
am **dd**euddeg o'r gloch

* Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i wahaniaethu ar ddwy lefel ac hefyd mae ar gael ar ffurf adnodd sydd yn galluogi'r dysgwyr i farcio neu i wirio'u gwaith eu hunain

cbac wjec

## (iii) Amseroedd rhaglenni ar y teledu – S4C **

| Amseroedd rhaglenni | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amser | Dydd Sul | Amser | Dydd Mercher | Amser | Dydd Gwener | Amser | Dydd Sadwrn |
| 08:55 | **Cyw** Rhaglen i blant bach | 08:05 | **Cyw** Rhaglen i blant bach | 08:45 | **Cyw** Rhaglen i blant bach | 10:00 | **Tag** Rhaglen Chwaraeon |
| 10:50 | **Dal ati** Rhaglen i ddysgwyr | 13:00 | **Newyddion/Tywydd** | 13:00 | **Newyddion/Tywydd** | 12:15 | **Ffermio** Rhaglen gylchgrawn |
| 18:25 | **Rownd a Rownd** Opera sebon | 16:00 | **Awr Fawr** Rhaglenni i blant | 13:30 | **Ffermio** Rhaglen gylchgrawn | 12:45 | **Cefn Gwlad** Rhaglen |
| 18:50 | **Newyddion** | 17:35 | **Stwnsh** Rhaglen i blant | 14:00 | **Prynhawn da** Rhaglen gylchgrawn | 13:40 | **Clwb Rygbi** Rhaglen Chwaraeon |
| 19:00 | **Dechrau Canu, Dechrau Canmol** Rhaglen grefyddol | 18:00 | **Pobl y Cwm** Opera sebon | 16:00 | **Yr Awr Fawr** Rhaglenni i blant | 16:55 | **Newyddion** |
| 20:30 | **Anita** Drama gyfres | 19:00 | **Heno** Rhaglen ddogfen | 18:30 | **Pobl y Cwm** Opera sebon | 17:00 | **Sgorio** Rhaglen Chwaraeon |
| 22:00 | **Clwb 2** Rhaglen Chwaraeon | 20:25 | **Gwaith cartref** Drama gyfres i bobl ifanc | 19:00 | **Heno** Rhaglen ddogfen | 20:00 | **Noson Lawen** Rhaglen Adloniant |

** Mae'r ddwy dudalen hyn ar gael  ar ffurf 'taflen y disgybl. Bydd modd eu golygu er mwyn creu adnodd y gellir ei gwahanaethu

## Ymarfer: Yn seiliedig ar Amserlen Rhaglenni S4C**

Mae grŵp o ffrindiau yn chwilio am raglenni difyr ar y teledu.
Dewiswch raglen i bob un ohonyn nhw

| Enw | Enw'r rhaglen | Math o raglen | Dydd | Amser |
|---|---|---|---|---|
| **William:** Ei hoff raglenni ydy rhaglenni dogfen. | **Heno** | **Rhaglen ddogfen** | **Dydd Gwener** | **Am saith o'r gloch** |
| **Simon:** Mae o'n hoffi rygbi a phêl-droed. | | | | |
| **Sara:** Mae hi'n mwynhau gwylio'r teledu gyda'i brawd bach 3 oed. | | | | |
| **Jayne:** Mae hi wrth ei bodd gyda drama. | | | | |
| **Aled:** Mae ganddo swydd rhan-amser ar fferm. | | | | |
| **James:** Mae o'n hoffi gwybod beth sy'n digwydd yn y byd. | | | | |
| **Chloe:** Mae hi'n dysgu siarad Cymraeg. | | | | |

** Mae'r ddwy dudalen hyn ar gael ar ffurf 'taflen y disgybl. Bydd modd eu golygu er mwyn creu adnodd y gellir ei gwahanaethu

cbac wjec